Yr Eglwys yng Nghymru

Aelodaeth a Chyllid

2013



YR EGLWYS yng NGHYMRU

THE CHURCH IN WALES

YR EGLWYS YNG NGHYMRU

THE CHURCH IN WALES

Croeso i adroddiad Aelodaeth a Chyllid yr Eglwys yng Nghymru am 2013.

Mae'n dda gallu adrodd bod y ffigyrau am eleni wedi'u seilio ar ymateb oddi wrth 93% o blwyfi'r Eglwys yng Nghymru. Golyga hyn y gallwn unwaith eto eu defnyddio i ddod i gasgliadau pwysig am sefyllfa'r Eglwys, ac i lywio cynllunio ar bob lefel, o'r plwyfi i'r Dalaith. Diolchwn, fel bob amser, i glerigion a swyddogion plwyfol am sicrhau bod yr holiaduron a gwblhawyd wedi ein cyrraedd mewn pryd i'n galluogi i gynhyrchu'r adroddiad blynyddol i'r Corff Llywodraethol.

Mae hwn yn datblygu i fod yn gyfnod o newid sylweddol i'r Eglwys yng Nghymru, wrth i'r esgobaethau ystyried a gweithredu prif argymhellion Arolwg yr Eglwys yng Nghymru – Golwg 2020. Mae'r holl esgobaethau'n awr yn datblygu Ardaloedd Gweinidogaeth a Thimau Ardaloedd Gweinidogaeth yn rhan o'r symud at greu patrwm newydd, mwy cyfranogol i'r Eglwys. Yn y blynyddoedd a ddaw bydd yr adroddiad Aelodaeth a Chyllid hwn yn gymorth i ddangos beth fu effaith y newidiadau hyn. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae'r data a gesglir o adroddiadau blynyddol y plwyfi yn gymorth o bwys i esgobaethau a deoniaethau i archwilio'r posibiliadau i blwyfi unigol gychwyn rhannu eu bywyd eglwysig yn nes â'i gilydd.

I sicrhau penderfyniadau deallus, mae'n bwysig bod aelodau'r Corff Llywodraethol, a'r Eglwys ehangach, yn cael darlun cywir, di-siwgr o'r cyfranogi sydd ym mywyd yr Eglwys ledled Cymru ac o'i chyllid. Mae yn yr adroddiad am eleni rai ffigyrau anodd i'r Eglwys eu treulio: gostyngiad yn nifer y cyfranogwyr rheolaidd ac achlysurol, a'r cyfrifoldeb am gostau plwyfol yn syrthio ar lai a llai o aelodau. Ar y cefndir hwn y mae'r esgobaethau'n ystyried sut orau i ddefnyddio'r adnoddau sylweddol – yn bobl, adeiladau ac arian – sydd gennym o hyd fel Eglwys. Awgryma'r darlun sydd yn ffigyrau'r adroddiad hwn fod brys am y gwaith.



Tabl 1: Cymryd rhan ym Mywyd y Plwyf yn 2013 a 2012

		2013	2012	2013 - 2012	%
Cymunwyr	Pasg	50,639	56,063	-5,424	-10
	Pentecost	30,672	32,469	-1,797	-6
	Nadolig	52,387	55,007	-2,620	-5
	Trindod III	29,744	30,705	-961	-3
Cyfartaledd Mynychwyr - dros 18	Suliau	31,048	32,187	-1,139	-4
	Dyddiau gwaith yn unig	3,794	3,986	-192	-5
Cyfartaledd Mynychwyr - dan 18		6,187	6,776	-589	-9
Rhôl yr Etholwyr		53,294	55,185	-1,891	-3
Bedyddiadau		7,262	7,497	-235	-3
Bedydd Esgob		1,201	1,458	-257	-18
Priodasau		3,021	3,458	-437	-13
Angladdau		6,435	6,520	-85	-1

Bu'n anodd erioed diffinio'r cysyniad o "Aelodaeth" yn yr Eglwys yng Nghymru. Mae sôn am Ofal Eneidiau'n gweddu'n well i'r traddodiad Anglicanaidd yng Nghymru na rhestrau aelodau. Yn draddodiadol, yng nghymun y Pasg y cafwyd y presenoldeb mwyaf (er nad felly y bu yn 2013), ond roedd cyfartaledd y presenoldeb ar y Sul yn rhoi darlun mwy dibynadwy o'r presenoldeb arferol. Hefyd, fe ddefnyddiwyd ffigyrau Rhôl yr Etholwyr i ddangos faint o bobl ym mhob cymuned sydd â chysylltiad gweladwy â gwaith y plwyf.

Y Darlun am 2013 o'i gymharu â 2012

Mae Tabl 1 yn cymharu ffigyrau presenoldeb allweddol am 2013 a 2012. Yr hyn a fydd yn amlwg ar unwaith yw nad oes eleni unrhyw gofnod cadarnhaol: bu gostyngiad ym mhob maes o'i gymharu â'r llynedd, ac mewn rhai achosion bu'r gostyngiad yn un sylweddol.

Ni ellir defnyddio tywydd drwg neu wyliau ysgol i esbonio amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y cymunwyr ar y prif wyliau. Roedd nifer y cymunwyr Pasg yn 2013 10% yn is na'r nifer yn 2012, ac roedd hwnnw 8% yn is na'r nifer yn 2011.

Gwelir hefyd fod gostyngiad o 9% yng nghyfartaledd presenoldeb rhai Dan 18 mlwydd oed a gostyngiad o 18% yn nifer y rhai a dderbyniodd fedydd esgob, dau faes lle y cafwyd arwyddion o dwf yn 2012. Mae methiant cynyddol yr Eglwys i ymgyrraedd at bobl ifainc yn peri cryn bryder, ac yn rhoi pwysigrwydd arbennig i ymdrechion rhai plwyfi i roi cynnig ar gynlluniau newydd i'w denu (gweler tudalen 4). Bu hefyd ostyngiad sylweddol, ond anodd ei esbonio, o 13% yn nifer y priodasau yn ein heglwysi.

Mae'r gostyngiad blynyddol yng nghyfartaledd presenoldeb y Sul ychydig yn fwy na'r duedd arferol, sy'n awgrymu bod ein haelodaeth yn lleihau bob blwyddyn. Y mae, fodd bynnag, wrthbwynt i'r stori hon o ddirywiad yn y categori newydd a gyflwynwyd i'r holiadur aelodaeth eleni. Fe'i cynlluniwyd i roi darlun ehangach o fywyd yr Eglwys na'r categorïau traddodiadol sydd yn Nhabl 1, a gofynnwyd i'r plwyfi roi'r nifer a ddaeth i wasanaethau eraill o addoliad yn ystod y flwyddyn, a allai gynnwys gwasanaethau teuluol; gwasanaethau carolau; gwasanaethau coffáu. Roedd cyfanswm y presenoldeb mewn o'r fath yn 2013 oddeutu 105,000.

Atal y Dirywiad, Rhoi Cynnig ar Bethau Newydd

Er nad oes, efallai, ond ychydig o achos optimistiaeth yn yr ystadegau ar dudalen 3 yr adroddiad hwn am fywyd y plwyfi, os symudwn oddi wrth dueddiadau taleithiol at weithgaredd plwyfol y mae arwyddion clir o blwyfi sy'n rhoi cynnig ar bethau newydd ac sy'n tyfu. Dros y tair blynedd ddiwethaf buom yn casglu ystadegau am ddulliau anhraddodiadol o addoli, ac yn 2013 amcangyfrifir i ychydig dan 12,000 o bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath. Ymhlith y pethau y dewisodd y plwyfi ei rannu â ni yn y rhan hon o'u hadroddiad aelodaeth, sy'n amrywio'n fawr, y mae:

- Cerdded Glan Afon;
- Te Parti Tedi Bêr;
- Gwasanaeth Brwyn;
- Gwasanaeth Jig-so;
- Gwasanaeth Eirlysiau;
- Llyffantod, Chwiorydd Unig, Penbyliaid;
- Hadau Mwstard;
- Addoli wrth Lyn Hwyaid;
- Arch Noa;
- Drama'r Geni mewn Sgubor;
- Gwasanaethau Pram.

Un o'r cynlluniau mwyaf poblogaidd yw Llan Llanast.

Mynegiant newydd o'r eglwys, i bob oed, yw Llan Llanast. Daw teuluoedd ynghyd, fel rheol yn fisol, i archwilio stori neu thema Feiblaidd neu i wneud gwaith celf a gweithgareddau eraill, gan foli Duw mewn gweithred fer o addoliad anffurfiol a chyd-fwyta. Mae'n eglwys i bawb, lle bynnag y bônt ar daith eu ffydd, a'r bwriad yw cyrraedd teuluoedd na fyddent fel rheol yn mynychu gwasanaethau. Dylai fod yn lle hwyliog, cyfeillgar a chroesawgar.

Cychwynnodd Llan Llanast ddeng mlynedd yn ôl mewn plwyf Anglicanaidd yn Lloegr, ond tyfodd yn fuan a lledaenu i enwadau eraill ledled y byd. Weithiau, fe'i cynhelir fel menter eciwmenaidd, neu gydag ychydig o eglwysi'n cydweithio â'i gilydd mewn ardal arbennig. Nid eglwys i blant mohoni, na dull o ddenu mwy o bobl i wasanaethau'r Sul, er y gall hynny ddigwydd. Nid clwb i aelodau presennol yr eglwys ydyw ychwaith, nac achlysur unwaith yn unig. Ffurf wahanol ar eglwys ydyw, yn estyn allan at y sawl nad ydynt, am ba reswm bynnag, yn mynychu gwasanaethau traddodiadol.

Bydd Llan Llanast yn cyfarfod ar adeg gyfleus i bobl nad ydynt eisoes yn mynd i eglwys. Gall gwrdd mewn eglwys, neuadd eglwys, neuadd gymuned, ysgol neu unrhyw adeilad addas. Gellir bod yn hyblyg wrth strwythuro'r sesiynau, ond mae'n bwysig bod croeso i bob oed, bod elfennau o greadigrwydd a dathlu, a bod y cyfan wedi'i ganoli ar Grist.

Profiad y rhan fwyaf o blwyfi lle y mae Llan Llanast yw ei fod yn waith caled sy'n gofyn am dîm ymrwymedig o bobl, ond daw â gwobrau helaeth ac, yn y rhan fwyaf o achosion, bydd teuluoedd nad ydynt yn dod i'r gwasanaethau traddodiadol yn mynychu'n rheolaidd.

I eglwysi â diddordeb yn y posibilrwydd o gychwyn Llan Llanast, cynhyrchodd Cymdeithas Darllen y Beibl nifer o lyfrau ac adnoddau i fod o gymorth. Bydd rhai llyfrau Cymraeg i'w cael cyn diwedd y flwyddyn. Ceir hyfforddiant a chyngor ar http://www.brfonline.org.uk/messy-church/ neu gan Lesley Cox, Cydlynydd Rhanbarthol Llan Llanast De Cymru. Byddai'n syniad da hefyd ymweld â Llan Llanast sydd eisoes yn bod, a gallwch, efallai, ddod o hyd i un ar: http://www.messychurch.org.uk/messy-churches

Cyllid

Tabl 2: Crynodeb o Gyllid Plwyfi'r Dalaith am 2013 a 2012

INCWM (£000s)	2013 £	2012 £
Rhoi Rheolaidd	11,964	11,876
Casgliadau rhydd	2,810	2,799
Rhoddion	2,998	3,227
At y Genhadaeth	535	588
Ad-daliadau Treth	2,728	2,809
Cymynroddion a dderbyniwyd	1,812	3,211
Grantiau	3,084	4,751
Codi Arian	4,983	5,018
Ffioedd	1,985	1,929
Buddsoddiadau	1,531	1,520
Adnoddau Incwm Arall	5,006	4,825
CYFANSWM INCWM	**39,436**	**42,553**

GWARIANT (£000s)	2013 £	2012 £
Cyfran Plwyf	17,323	17,390
Treuliau Clerigion	1,357	1,386
Cynhaliaeth Arall i'r Weinidogaeth	289	281
Cynnal Gwasanaethau	1,363	1,365
Treuliau Cyffredinol Plwyfi	2,015	2,015
Cynnal Eglwysi	5,732	5,698
Cynnal Eiddo	2,389	2,212
Gwariant Arbennig ar Eiddo	3,711	5,768
Grantiau i Blwyfi	606	564
Grantiau Cartref/Byd	1,084	1,112
Taliadau Cyfalaf	2,112	2,015
Cost Codi Arian	964	636
CYFANSWM GWARIANT	**38,945**	**40,442**

Mae Tabl 2 yn cymharu incwm a gwariant y plwyfi am 2013 a 2012. Bu gostyngiad yng nghyfanswm incwm y plwyfi dros y cyfnod hwn, ond bu gostyngiad hefyd yng nghyfanswm y gwariant, sy'n golygu bod cyfanswm yr incwm yn fwy na chyfanswm y gwariant am yr ail flwyddyn.

Newyddion da arall yw i'r cyfrannu uniongyrchol rheolaidd gynyddu dros y cyfnod, a'i fod yn awr ar ei lefel uchaf ers dechrau casglu'r adroddiadau blynyddol yn y dull hwn yn 1990, ac felly, yn ôl pob tebyg, ar ei lefel uchaf erioed. Daliodd dulliau eraill o gyfrannu rheolaidd eu tir yn dda. Dau faes y gellir, wrth eu natur, eu diffinio'n incwm "unwaith yn unig" oedd yn gyfrifol am y gostyngiad yng nghyfanswm yr incwm.

Bu gostyngiad o dros 35% yn yr incwm grantiau yn 2013, ac mae hynny'n cysylltu â gostyngiad yn y Gwariant Arbennig ar Eiddo. Fodd bynnag, er y cyfyngir incwm grantiau fel rheol i un flwyddyn, ac y gellir felly ddisgwyl amrywiadau sylweddol, dyma'r drydedd flwyddyn yn olynol pan fu gostyngiad mewn grantiau. Yn wir, nid yw'r incwm grantiau am 2013 yn ddim ond ychydig dros hanner yr incwm a gafwyd o ffynonellau o'r fath yn 2010. Gall hyn arwyddo bod plwyfi'n gynyddol annhebygol i ymgymryd â phrosiectau adeiladu mawr fel y mae eu sefyllfa ariannol yn simsanu. Fodd bynnag, y mae grantiau ar gael i blwyfi'r Eglwys yng Nghymru o nifer o ffynonellau at brosiectau o bob maint. Cysylltwch ag Adran Eiddo Corff y Cynrychiolwyr neu Swyddfa eich Esgobaeth i drafod y posibiliadau.

Bu gostyngiad sylweddol hefyd yn yr incwm o gymynroddion, ond rhaid cofio y derbyniwyd sawl cymynrodd helaeth yn 2012; deil cyfanswm y cymynroddion am 2013 yn uwch nag yn 2011. Cydnabyddir y gall trafod cymynroddion ag aelodau'r Eglwys fod yn beth anodd, ac anogir clerigion a thrysoryddion plwyfi i ddefnyddio pecyn Cymynroddion yr Eglwys yng Nghymru, y gellir ei gael o Swyddfeydd yr Esgobaethau a Chyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru.

Ffigur 3: Cyfraniadau Uniongyrchol Wythnosol am bob Mynychwr ar y Sul



Cyfraniadau Uniongyrchol

Gan i gyfanswm y cyfrannu uniongyrchol gynyddu yn 2013, ac i gyfartaledd y presenoldeb ostwng, cynyddodd cyfraniad wythnosol pob mynychwr ar y Sul ar gyfartaledd o 4.2% i £9.11. Mae hyn yn 2.8% o gyfartaledd incwm wythnosol crynswth oedolion yng Nghymru, yr un ganran ag yn 2013.

Yr un, fe ymddengys, yw'r neges bob blwyddyn: mae'r baich o ysgwyddo'r ymrwymiadau ariannol rheolaidd cynyddol yn disgyn ar aelodaeth sy'n lleihau ac sy'n dal i gyfrannu'n aberthol i gynnal gwaith eu plwyf a'r Eglwys ehangach. Mae'n rhaid i'r Eglwys ddod o hyd i ffyrdd o ddefnyddio ei hadnoddau yn y modd mwyaf effeithiol posibl (datblygu dulliau newydd o weinidogaethu, er enghraifft), ac achub ar bob cyfle sydd i gynyddu effaith cyfrannu hael ei haelodau (er enghraifft, trwy ddefnyddio Cymorth Rhodd, gweler tudalen 8).

Wrth gwrs, y dull mwyaf effeithiol o ysgafnhau'r baich ariannol ar yr aelodau yw denu mwy o bobl i gymryd rhan ym mywyd yr Eglwys.

Dengys Ffigur 4 haelioni aelodau'r Eglwys, yn enwedig yn y blynyddoedd diwethaf. Er 1990 bu cynnydd yng nghyfraniadau mynychwyr y Sul ar gyfartaledd o 113%, o'i gymharu â chynnydd o 95% yn y Mynegai Prisiau Adwerthu. Dros yr un cyfnod cynyddodd cyfanswm y cyfraniadau uniongyrchol o £6.9 miliwn yn 1990 i £14.8 miliwn yn 2013.

Ffigur 4: Newidiadau Mewn Cyfraniadau Uniongyrchol



Ffigur 5: Cyfranwyr ac Ad-daliadau Treth trwy Roi'n Syth yn 2012 a 2013



Un ffordd o gynyddu cyfraniadau'r aelodau heb gynyddu'r baich gweinyddol ar swyddogion plwyfol yw bod yr aelodau'n cyfrannu trwy'r cynllun taleithiol Rhoi'n Syth. Dan y cynllun hwn, bydd cyfranwyr unigol yn cyfrannu'n fisol trwy Ddebyd Uniongyrchol, a thelir yn electronig bob cyfraniad, ynghyd ag unrhyw ad-daliad dreth a hawliwyd trwy Gymorth Rhodd, i gyfrif plwyfol enwebedig bob mis. Staff y dalaith sy'n gwneud yr holl weinyddu, gan gynnwys hawlio ad-daliad treth, ac anfonir datganiadau i drysoryddion plwyfol neu Ysgrifenyddion Cymorth Rhodd. Y cyfrannwr sy'n penderfynu maint y cyfraniad, sut a phryd i'w newid ac i bwy i'w dalu.

Yn ogystal â rhoi i blwyfi incwm misol gwybyddus, awgryma'r dystiolaeth fod y sawl sy'n cyfrannu trwy Roi'n Syth yn cyfrannu mwy y pen na mynychwyr y Sul ar gyfartaledd. Er y gall symud i gyfrannu trwy Ddebyd Uniongyrchol fod yn newid diwylliannol i'r aelodau, mae'n aml yn fwy cyfleus.

Dengys Ffigur 5 y nifer sy'n cyfrannu trwy Roi'n Syth a faint o ad-daliad treth a hawliwyd ar gyfraniadau yn 2012 a 2013. Hyd yn oed yn y cyfnod gweddol fyr hwn, cynyddodd nifer y cyfranwyr o 2,332 i 3,145. Yn yr un cyfnod cynyddodd yr ad-daliad treth a hawliwyd bob mis ar y cyfraniadau hyn o £23,209 (y ffigwr am 2012 oedd £308,402) i £32,508 (y ffigwr am 2013 oedd £367,195). (Nodwch nad oes raid bod yn drethdalwr i gyfrannu trwy Roi'n Syth.)

Am wybodaeth am Roi'n Syth cysylltwch â: glendaedwards@eglwysyngnghymru.org.uk

Ffigur 6 Sut y cyllidwyd yr Eglwys yng Nghymru yn 2013



Ffigur 7: Gwariant y Plwyfi er 1990



Sut y mae'r Plwyfi'n Gwario'u Harian?

Bu gostyngiad yng nghyfanswm gwariant y plwyfi dros y tair blynedd diwethaf, ac yn y gwariant ar adeiladau y bu'r gostyngiad mwyaf. Mae cysylltiad rhwng hyn a'r ffigyrau am incwm grant a gwariant arbennig ar eiddo ar dudalen 5. Fodd bynnag, y mae hefyd yn rhan o dueddiad llawer hwy a welodd wariant y plwyfi'n symud yn bendant at gostau'r weinidogaeth ar draul adeiladau dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf.

Ffigur 8: Gwariant y Plwyfi 2013



Mae yn Ffigur 8 ddadansoddiad o wariant y plwyfi yn 2013. Er i'r gwariant gwirioneddol ar gynnal y weinidogaeth ostwng rhwng 2012 a 2013, cynyddodd y gyfran o'r cyfanswm gwariant a wariwyd ar y weinidogaeth o 52% yn 2012 i 55% yn 2013. Dros yr un cyfnod, gostyngodd y gyfran a wariwyd ar eiddo o 34% i 30%. Fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, deil y plwyfi'n ymroddedig i waith allanol, er gwaethaf pwysau eraill (yn 2013 cynyddodd y gwariant gwirioneddol ar waith allanol o £12,000 i ychydig o dan £1.7 miliwn).